# **Cyngor Cymuned Llanystumdwy**

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 2 Ebrill 2026 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Festri Pencaenewydd, a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

1. **Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau.**

**Yn bresennol** y Cynghorwyr Anwen Jones (Cadeirydd), Rhys Tudur, Miriam Williams, Delyth Parry, Angharad Llwyd-Jones, Tegid Jones, Aled Davies, Aled Evans, Angela Williams, Dylan Thomas, Gareth Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau** – Cynghorydd Sian Angharad Parry, Dewi Thomas, ac Euros Jones.

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 5 Mawrth 2026.**

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Mawrth 2026.**

4. **Datgan buddiant personol -neb.**

5. **Sedd newydd yn Ward Llanystumdwy** manylion cyfethol wedi cael ei rhoi ar y wefan a hysbysfwrdd Llanystumdwy hefo dyddiad cau 31.03.2026 – neb wedi dangos diddordeb.

6. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

7. **Cau ffordd o groesffordd Brynllefrith Uchaf i gyffordd Capel Pencoed, Llangybi** 20.04.2026, i wneud gwaith newid polyn. Disgwylir y gellir cwblhau'r gwaith o fewn 2 – 3 diwrnod. **Derbyn**.

8. **Terfyn cyflymder 30 milltir yr awr Ffordd Dosbarth 3 Afonwen – Chwilog** – cynnig ystyried yr uchod. Angen sylwadau ac os na dderbynir ymateb, cymerir yn ganiataol nad oes gwrthwynebiad. **Cytuno a dim gwrthwynebiad.**

9. **Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned 01.04.2024 – 31.03.2025** – y Clerc wedi ei anfon at bawb o flaen y cyfarfod. **Derbyn, a'r Cadeirydd a'r Clerc yn llofnodi'r adroddiad a'i roi ar wefan y Cyngor.**

10. **Cais cynllunio sydd angen penderfyniad – dim.**

11. **Rheilffordd Cambrian** – derbyniwyd ebost yn gofyn am gefnogaeth i wneud gwellianau i'r rheilffordd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi byddant yn rhoi arian tuag at wella rheilffyrdd Wrecsam i Lerpwl, Caer, prif reilffordd arfordir gogledd a gorllewin Cymru ac yn ardal Caerdydd, ond dim y Cambrian. **Cefnogi'r cais ac anfon ebost i gadarnhau hynny.**

12. **Llwybrau yn y gymuned** – derbyniwyd cais gan Gyngor Llanengan yn mynegi pryder am gyflwr llwybrau'r gymuned, sef Pen Llŷn yn benodol. Mae hyn o ganlyniad i'r troedio a wneir arnynt yn ystod yr amrywiol rasys cerdded/rhedeg a gynhaliwyd eisoes a'r rhai sydd i ddod (llawer mwy eleni o gymharu â'r llynedd), yn arbennig ar ôl y tywydd gwlyb a gafwyd yn ddiweddar. Mae'r niferoedd yn peryglu'r llwybrau ac fe beidiwyd a chynnal un ras yn ddiweddar i arbed y dirwedd ar gyfer y 'SheUltra' ar 11.04.2026. Deallwyd y bu cryn

broblemau ar ran mwdlyd o'r llwybr yn ardal Anelog yn ystod y ras a gynhaliwyd. Ategwyd hyn drwy ddweud y "dylai'r trefnwyr, sydd yn cael yr arian yn hytrach nag elusennau, dalu neu o leiaf gyfrannu at gynnal a chadw'r llwybrau ar gyfer cerddwyr eraill sydd am ei defnyddio. Yn naturiol, derbynnir yr elwa'r ardal o ran y cystadleuwyr a ddaw yma ond, rydym ni fel cynghorau yn ceisio cadw trefn ar y llwybrau trwy eu cynnal a'u cadw'n flynyddol". **Gofynwyd am farn y Cyngor Cymuned ar y mater, a gofynwyd i'r Clerc ymateb drwy gytuno â'r sylwadau a nodwyd, fod yr amseru yn gallu effeithio ar amodau tywydd gwael, a thybed os yw yswiriant y ras yn di-golledu trwsio llwybrau os oes angen.**

**Materion yn y gymuned**.

13. **Llanystumdwy**

a) **Cae'r Felin –** taith safle i stâd dai newydd Tai Gogledd Cymru. Bu rhai o'r Cynghorwyr a'r Clerc yn gweld y tai ar 19.03.2026, cyn i'r tenantiaid gael ei goriadau, ac roedd safon y tai yn uchel.

b) **Ail beintio'r llinnellau melyn drwy'r pentref** – derbyniwyd cais yn gofyn am gael ail beintio'r llinnellau melyn drwy'r pentref ac o flaen yr ysgol oherwydd nad oeddent yn glir erbyn hyn. **Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd.**

14. **Rhoslan/Ynys**

**Lon rhwng Tyddyn Felin, Ynys – Tu Hwnt i'r Afon, Ynys,** – cyflwr y lon yn ddrwg iawn yn enwedig y tro ger mynedfa Tu Hwnt i'r Afon. **Clerc wedi hysysbu Cyngor Gwynedd.**

15. **Chwilog**

**Lloches bws ger Maes Myrddin** – derbyniwyd ebost gan Cyngor Gwynedd yn dweud ei bod wedi derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd am gyflwr y lloches bws. Clerc wedi cysylltu hefo Mr Dafydd Wheldon Hughes, Swyddog Cludiant, Cyngor Gwynedd ac mae wedi cadarnhau y gwnaiff roi cais am loches newydd ar y safle, ar ei rhestr nhw, yn ddi-gost i'r Cyngor Cymuned, fel cais am uwchraddio. Bydd hyn yn digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol sydd yn dod.

Yn y cyfamser, penderfynwyd nad oedd angen peintio y rhannau sydd wedi rhydu a cheisio gosod y panel sydd wedi dod i ffwrdd yn nol dros dro.

16. **Pencaenewydd/Sardis**

17. **Llangybi**

18. **Materion Ariannol**

**Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.**

Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel' manwl o'r sefyllfa ariannol hyd at 31.03.2026. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud, a rhagolwg tan 31.03.2026. Eglurwyd bydd swm o £1,414.14 o dreth ar werth yn cael ei hawlio nol am y flwyddyn ariannol yn gorffen 31.03.2026, yn sgîl y gwariant a wnaed hefo'r arian dderbyniwyd gan grant Gwynedd Ni ddiwedd 2025. Hefyd nid oedd y cais ariannol am gostau ar gyfer Wifi gan Pencaenewydd wedi cyrraedd cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

19. **Cyswllt Zoom cyfarfodydd misol Cyngor Cymuned** – cyswllt zoom wedi cael ei ddefnyddio ers 6 mlynedd rwan. Mae problemau o dro i dro lle mae'n anodd clywed trafodaeth yn rhithiol, a bod y linc yn cau ar ol 40 munud. Mae newid wedi digwydd fis diwethaf pan roedd oedi o 10 munud cyn medru cael cyswllt yn nol. Trafodwyd y mater, a phenderfynu parhau i ddefnyddio'r cyswllt zoom fel ag yr oeddem, a pheidio talu'n fisol i gael cyfarfod zoom heb doriad ar ol 40 munud. Hefyd, penderfynwyd aros ym Mhencaenewydd am y cyfarfod nesaf, am rwan oherwydd fod yr offer sain yn well yno na'r ddau leoliad arall.

20. **Cae Chwarae, Llangybi** mae cwmni Fields in Trust wedi cynnig cynnal yr archwilio blynyddol nesaf am gost o £150.00 a threth ar werth. **Derbyn.**

21. **Cronfa Cefnogi Cynghorau gan Gwynedd Ni** – derbyniwyd gwybodaeth bydd y gronfa yma yn ail-agor eleni, ac mai cronfa cyfalaf yn unig fydd o felly ni fydd cyngerdd neu ddigwyddiad yn gymwys.

Bwriad y gronfa yw cefnogi prosiectau cyfalaf sy'n gwella gofodau cymunedol, mannau cyhoeddus ac yn cyfrannu at adfywio lleol, ac mae'r dyddiad cau 15.06.2026.

Mae 1622 o etholwyr o fewn Cymuned Llanystumdwy, felly gellir gwneud cais hyd at **£7,000.00** eleni.
Trafodwyd syniadau a cytunwyd ar gyfer y ddau isod:-

1. **Offer 'tylluan' sain/ a sgrin deledu i'w osod ar y wal** – cynnig prynu offer ar gyfer Neuadd Llanystumdwy a Neuadd Chwilog. Byddai hyn yn galluogi cynnig cyswllt technoleg/sain gwell ar gyfer y gwahanol fudiadau/cyfarfodydd sydd yn defnyddio'r neuaddau.
2. **Cae chwarae Chwilog** – bydd angen cysylltu hefo Llifon Foulkes, Cyngor Gwynedd i drafod y mater, sef gofyn am ganiatad i ni holi am bris er mwyn cael **gwneud grisiau neu ramp i fynd at y llecyn chwarae o fewn y cae chwarae ei hun**. Mae llethr serth yn mynd i lawr at yr offer chwarae sydd yno, a byddai hyn o gymorth i fynd at y cae chwarae. Mae rhieni yn y pentref wedi bod yn galw am wellianau ers tro.

**Clerc i holi Alys i weld os oedd yn cynnigion a drafodwyd yn addas ar gyfer y prosiect, cyn holi'r uchod i weld os oeddent yn fodlon i ni wneud cais am arian.**

22. **Taliadau BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod**.
**Costau cyswllt Wifi Pencaenewydd** – llynedd fe wnaeth y Cyngor Cymuned dalu'r swm yn llawn i Pencaenewydd sef £609.39 hyd at Rhagfyr 2024, ac roedd swm Neuadd Chwilog yn £330.33 am yr un cyfnod i gwmni gwahanol. Eglurwyd fod y cyfnod contract BT ym Mhencaenewydd yn dod i ben fis Tachwedd 2025, a byddai'n bosib trafod y mater hefo nhw adeg honno.
Cytunwyd felly oherwydd fod y gost am Wifi Pencaenewydd yn parhau i fod yn uchel, sef £648.84 tro yma rhwng Ionawr - Rhagfyr 2025, gwnaed penderfyniad i dalu uchafswm o £400.00 fel cyfraniad ariannol tuag at y gost Wifi yn hytrach na'r swm llawn o £648.84.

| **Enw** | Rheswm | Pris £ | TAW £ | Cyfanswm Taliad £ | Taliad BACS £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Criccieth Cleaning | Llochesi bws (3997) | **174.54** | **34.91** | **209.45** | **209.45** |
| Capel Pencaenewydd | Cyswllt Wifi rhwng Ionawr Ionawr – Rhagfyr 2025 - | **648.84** | | **400.00** *Gweler penderfyniad uchod* | **400.00** *Gweler penderfyniad* |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | *uchod* |
| Cyngor Gwynedd | Gwagio bin baw ci – Lon y Plas, Chwilog 007950B0083840B | **215.28** | **43.06** | **258.34** | **258.34** |

23. Cyflog mis Mawrth 2026 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm £ | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Mawrth 2026<br>35 awr y mis x £18.85 = **£659.75** a | £659.75 Llai treth- £132.00 = **£527.75** | **527.75** | **527.75** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Mawrth 2026<br>£660.00 x 20% = £132.00 | **£132.00** | **132.00** | **132.00** |
| Costau swyddfa Clerc Mawrth 2026 | **26.00** | **26.00** | **26.00** |

24. **Materion hwyr**

Trafodwyd fod angen trefnu dyddiad a lleoliad arwahan i'r 07.05.2026 i gynnal y cyfarfod blynyddol nesaf oherwydd bod yr etholiad. Cytunwyd i'w gynnal yn Festri Pencaenewydd ar nos Fawrth 05.05.2026 am 7:00 yr hwyr.

a) **Creu llwybr troed newydd rhif 97, 2026 rhwng Afonwen a Llanystumdwy** - derbyniwyd manylion gan Cyngor Gwynedd – dim gwrthwynebiad.

b) **Cyfarfod cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian** ar 22.05.2026 yn rhithiol. Clerc i holi faint o'r gloch mae'r cyfarfod.

c) **Cae chwarae Chwilog** – Cynghorydd Rhys Tudur wedi bod mewn cysylltiad â Llifon Foulkes, Uwch Beiriannydd Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd, yn egluro fod pryderon fod y llwybr ar y ffordd i'r cae chwarae wrth basio Maes Myrddin yn gul. Eglurwyd byddai swyddog o'r Adran Eiddo yn cysylltu hefo Adra, i weld os oedd modd ymestyn lled y llwybr petai angen mynediad i gontractwyr ar y safle. Eglurwyd hefyd, fod y maes chwarae yn Chwilog yn un o'r meysydd yr oeddent yn edrych i wella. Yn ddiweddar, roedd arian grant ar gael drwy y Cynllun SPF o £76,000.00 i adnewyddu rhai cyfarpar ym meysydd chwarae drwy Wynedd, ond y tro yma roedd rhai ardaloedd mewn fwy o angen gan bod rhai wedi dod i diwedd ei hoes. Dywedodd os daw mwy o gyfleon grantiau, ac os yn llwyddiannus mi fydd Chwilog yn cael llawn ystyriaeth, ond cyn i hyn ddigwydd maent yn edrych ar y problemau mynediad i'r maes chwarae ac mewn trafodaeth gyda Eiddo i wella hyn.